Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cod Ymarfer Diwygiedig ar Faterion y Gweithlu

## Nodyn Cyngor Caffael

## i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru

**Tynnu Cod Ymarfer Materion y Gweithlu mewn Contractau Gwasanaeth Sector Cyhoeddus yn ôl**

1. Mae cwmpas y cylchlythyr hwn bellach wedi'i amrywio, ar 25 Mawrth 2026.
2. Nid yw Cod Ymarfer Materion y Gweithlu mewn Contractau Gwasanaeth Sector Cyhoeddus a nodir yn Atodiad A (y Cod) bellach yn gymwys i unrhyw gontractau yr ymrwymir iddynt ar 25 Mawrth 2026 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.
3. Mae'r Cod yn parhau i fod yn gymwys i unrhyw gontractau yr ymrwymwyd iddynt cyn 25 Mawrth 2026.

**Cyfarwyddyd**

4. Mae'r rhagymadrodd hwn yn amrywiad i'r cyfarwyddyd a roddir o dan baragraffau 37-39 isod.
5. Mae'r cyfarwyddyd wedi'i amrywio fel nad yw'n ofynnol i'r Cyrff dan Gyfarwyddyd bellach roi sylw i God Ymarfer Materion y Gweithlu mewn Contractau Gwasanaeth Sector Cyhoeddus a nodir yn Atodiad A ar gyfer unrhyw gontractau yr ymrwymir iddynt ar 25 Mawrth 2026 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.
6. Rhaid i Gyrff dan Gyfarwyddyd barhau i roi sylw i'r cod mewn perthynas ag unrhyw gontractau yr ymrwymwyd iddynt cyn 25 Mawrth 2026.

# Cynnwys


| Rhif yr Adran | Enw'r Adran | Rhif y Dudalen. |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| | *(i) Pwyntiau i'w Nodi*<br>*(ii) Materion yr Ymdriniwyd â Hwy* | |
| 2. | Beth yw'r Cod Ymarfer diwygiedig ar Faterion y Gweithlu? | 3 |
| 3. | Ble mae'r Cod yn gymwys? | 4 |
| 4. | Sut y dylid cymhwyso'r Cod? | 5 |
| 5. | Sut y caiff y Cod ei orfodi? | 6 |
| 6. | Canllawiau ac Adnoddau | 6 |
| Atodiad A. | Y Cod | 7 |
| Ychwanegiad | Y Broses Amgen o Ddatrys Anghydfod | 11 |
| Atodiad B. | Telerau contract enghreifftiol | 13 |

## 1. Cyflwyniad

### (i) PWYNTIAU I'W NODI – *gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr adran hon yn gyntaf*

- *Nid yw'r wybodaeth a nodir yn y ddogfen yn gyngor cyfreithiol ac ni fwriedir iddi fod yn hollgynhwysfawr – dylai partïon sy'n llunio contract geisio eu cyngor annibynnol eu hunain fel y bo'n briodol. Noder hefyd bod y gyfraith yn newid o hyd a dylid ceisio cyngor mewn achosion unigol. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Mai 2014.*

- *Enghraifft yn unig yw'r Telerau ac Amodau Enghreifftiol ar gyfer Contract a geir yn Atodiad B a dylai partïon sy'n llunio contract geisio eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain.*

- *Mae'r Nodyn Cyngor Caffael hwn yn adeiladu ar y wybodaeth sydd ar gael yn y Cynllunwyr Llwybrau Caffael yn http://prp.wales.gov.uk ac mae'n gyson â hi. Felly mae'r nodyn yn cymryd yn ganiataol bod darllenwyr yn meddu ar rywfaint o wybodaeth*

### (ii) Materion yr Ymdriniwyd â Hwy

Paratowyd y nodyn hwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu sefydliadau sector cyhoeddus pan fyddant yn trosglwyddo staff o'r sector cyhoeddus i drydydd parti fel rhan o gontract allanol. Mae'r nodyn hwn yn cynnwys crynodeb sylfaenol o hanes a chefndir y Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu a'i gynnwys ar ei ffurf ddiwygiedig. Mae'n cynnwys y Cod newydd yn Atodiad A ac yn rhoi rhai Telerau ac Amodau enghreifftiol ar gyfer Contract yn Atodiad B i'w defnyddio o bosibl wrth lunio contract â chyflenwyr gwasanaethau. Bydd y nodyn hwn o ddiddordeb penodol i staff sy'n rhan o'r broses gaffael a'r broses o reoli gwasanaethau a ddarperir yn allanol o dan y contract.

## 2. Beth yw'r Cod Ymarfer diwygiedig ar Faterion y Gweithlu?

Mae'r Cod Ymarfer diwygiedig ar Faterion y Gweithlu yn fersiwn wedi'i ddiweddaru o Godau blaenorol a phresennol, a elwir yn "Codau Gweithlu Dwy Haen", a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ymdrin ag anfanteision canfyddedig i'r canlynol:

1. staff y sector cyhoeddus a drosglwyddwyd i drydydd parti, fel arfer o ganlyniad i osod gwasanaeth cyhoeddus ar gontract allanol;
2. staff a recriwtiwyd gan y contractwr i weithio ochr yn ochr â'r gweithlu a drosglwyddwyd.

Nod y Cod diwygiedig yw sicrhau, lle y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu gosod ar gontract allanol i drydydd parti (gan gynnwys y sector preifat a'r trydydd sector) a lle mae staff yn trosglwyddo:

(a) y bydd TUPE yn gymwys, ac os nad yw TUPE yn union gymwys, y caiff egwyddorion TUPE eu dilyn oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny;

(b) y caiff staff y darparwr gwasanaeth (boed hwy'n staff sydd newydd eu recriwtio neu'n staff presennol) sy'n ymgymryd â gwaith ar y contract hwnnw eu cyflogi ar delerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol na thelerau ac amodau'r staff a drosglwyddwyd, ac eithrio trefniadau pensiwn lle mae'n rhaid gwneud darpariaeth resymol fel y nodir yn y Cod.

Mae'r Cod diwygiedig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod contractio fonitro'r ffordd y caiff y Cod ei weithredu gan ddarparwyr gwasanaethau lle bynnag y mae'n gymwys, a chyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Mae dau God wedi bod ar waith yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mae'r rhain yn atgynhyrchu'n fras y Codau cyfatebol a gyhoeddwyd yn Lloegr. Cod Cymru 2003 a gyhoeddwyd o dan awdurdod statudol penodol ar gyfer awdurdodau gwerth gorau (awdurdodau gwella bellach) heblaw am awdurdodau tân ac achub a Chod Cymru 2005 a gyhoeddwyd ar gyfer gweddill y gwasanaeth cyhoeddus (a ailgyhoeddwyd yn 2008).

Diddymodd Llywodraeth y DU Godau Lloegr yn 2010 a 2011, gan gyflwyno dogfen o'r enw "Principles of Good Employment Practice" yn eu lle. Egwyddorion gwirfoddol yw'r rhain ac maent yn llai trylwyr na Chodau blaenorol y DU a Chodau presennol Cymru. Mae'r olaf wedi parhau i fod mewn grym yng Nghymru ers iddynt gael eu cyhoeddi.

Mae'r Cod unigol newydd a gymhwysir yn eang yn ailgyhoeddi ac yn diweddaru Codau cynharach Cymru, gyda'r cynnwys craidd yn aros yn ddigyfnewid. Mae'r deunydd ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

- Lle mae darparwr gwasanaeth yn trosglwyddo staff a oedd yn wreiddiol yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus i is-gontractwr, bydd y darparwr gwasanaeth sylfaenol yn gyfrifol am sicrhau bod yr is-gontractwr yn cydymffurfio â'r Cod.
- Mae'r Cod newydd yn diffinio "staff newydd ymuno" fel rhai sy'n cynnwys cyflogeion newydd a recriwtir at ddiben y contract gwasanaethau cyhoeddus a chyflogeion presennol y darparwr gwasanaeth a drosglwyddir i weithio ar gontract a gwmpesir o dan delerau'r Cod.
- Dulliau monitro ac adrodd newydd
- Diwygiadau i adlewyrchu trefniadau pensiwn cofrestru awtomatig, y Fargen Deg diwygiedig a'r cyfarwyddyd Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru (Cyfarwyddyd) 2012.
- Darpariaeth amgen, mewn rhai achosion, pan fo'r darparydd gwasanaeth yn gorff cyhoeddus,

Nod y Nodyn Cyngor hwn yw eich helpu i ddatblygu telerau ac amodau contract addas er mwyn helpu i gymhwyso a gorfodi'r Cod.

## 3. Ble mae'r Cod yn gymwys?

Bydd y Cod Ymarfer, a geir yn Atodiad A, yn gymwys i'r canlynol:

- Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau cymuned
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Byrddau Iechyd Lleol

- Ymddiriedolaethau'r GIG
- cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ysgolion ffederal a gynhelir
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Corff Adnoddau Naturiol Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru.

Ym mhob achos mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus ystyried y Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu mewn Contractau ar gyfer Gwasanaethau yn y Sector Cyhoeddus, fel y'i nodir yn Atodiad A.

## 4. Sut y dylid cymhwyso'r Cod?

Dylid cymhwyso'r Cod pryd bynnag y bwriedir gosod gwasanaethau cyhoeddus i drydydd parti ar gontract allanol. Dylai ymarferion contractio, gan gynnwys ail-dendro (a lle y caiff contract ei derfynu ac y caiff y gwaith ei drosglwyddo i ddarparwr gwasanaeth arall os na wneir hynny drwy broses dendro) gael eu cynnal ar y sail y bydd Rheoliadau TUPE 2006 yn gymwys oni bai bod rhesymau eithriadol pam na ddylai hynny ddigwydd.

Ar y cam cynharaf posibl yn y broses gontractio dylai'r corff cyhoeddus nodi y bydd staff yn gymwys i drosglwyddo ac, o ganlyniad, y bydd TUPE yn gymwys fel arfer. Efallai y bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn cadarnhau a yw TUPE yn gymwys, ond hyd yn oed lle nad yw TUPE yn union gymwys dylid dilyn egwyddorion TUPE a dylai staff gael eu trin mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na'r ffordd y byddent wedi cael eu trin pe bai'r Rheoliadau yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth â darpariaethau *A Fair Deal for Staff Pensions*, a ddiwygiwyd yn 2013.

Lle mae dau neu fwy o gyrff cyhoeddus yn ymrwymo i gontract â darparwr gwasanaeth a bod dau neu fwy o grwpiau o gyflogeion sy'n trosglwyddo dylai'r contract nodi telerau ac amodau pa grŵp o gyflogeion y dylid eu defnyddio ar gyfer y gymhariaeth “heb fod yn llai ffafriol”.

Bydd y Cod Ymarfer hefyd yn sicrhau y caiff staff sydd newydd ymuno â'r gweithlu a drosglwyddwyd delerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol na thelerau ac amodau'r staff a drosglwyddwyd. Nid yw hyn yn gymwys i bensiynau, ond mae'n rhaid cynnig darpariaeth pensiwn resymol i staff sydd newydd ymuno fel y nodir yn y Cod.

Lle mae'r prif gontractwr yn trosglwyddo staff a oedd yn wreiddiol yn cael eu cyflogi gan sefydliad sector cyhoeddus i is-gontractwr, bydd y prif gontractwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr is-gontractwr yn cydymffurfio â'r Cod.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylai telerau ac amodau contract, wedi'u cynnwys yn y dogfennau Gwahoddiad i Dendro, gynnwys y rhwymedigaethau yn y Cod Ymarfer a chynnwys darpariaethau ar gyfer datrys anghydfodau. Darperir cyfres o gymalau enghreifftiol at y diben hwn yn Atodiad B.

## 5. Sut y caiff y Cod ei orfodi?

Noda'r Cod y bydd y sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yn gorfodi unrhyw amodau yn y contract a osodir ar y darparwr gwasanaeth ac a roddwyd ar waith o dan y Cod hwn. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i gydymffurfiaeth â'r Cod fod yn rhan o'r broses o reoli'r contract.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r ffordd y caiff y Cod ei gymhwyso drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiad blynyddol ar nifer y contractau allanol yr ymrwymwyd iddynt ac a gafodd y Cod ei gymhwyso ai peidio ym mhob achos, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw anghydfodau sy'n codi o'r Cod. Caiff manylion y trefniant adrodd blynyddol hwn eu cynnwys yn y Cod yn Atodiad A (paragraffau 11 a pharagraffau dilynol).

Caiff pryderon neu gwynion gan staff a drosglwyddwyd a Staff Newydd Ymuno mewn perthynas â'r Cod eu cyflwyno i'r darparwr gwasanaeth i'w datrys. Yr awdurdod contractio fydd yn gyfrifol am orfodi telerau'r contract, a ddylai gynnwys darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau mewn ffordd gyflym a chost-effeithiol gyda'r nod o sicrhau ateb y mae pob parti yn ymrwymo iddo. Y dull amgen o ddatrys anghydfodau yw'r enw a roddir ar hyn ac fe'i disgrifir yn yr Atodiad i'r Cod (yn Atodiad A).

Mae angen i'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â'r Cod gael ei osod ar y darparwr gwasanaeth drwy delerau'r contract. O dan y Cod mae'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod contractio i fonitro cydymffurfiaeth. Nid yw'r gofyniad hwn wedi newid ers fersiynau blaenorol o'r Cod. Mae gofyniad Llywodraeth Cymru bod sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol ar eu gweithgarwch o ran contractau allanol a'r ffordd y maent yn cymhwyso'r cod (fel y'i disgrifiwyd uchod) yn un newydd o gymharu â'r Codau blaenorol.

## 6. Canllawiau ac Adnoddau

Ceir isod rai o'r dogfennau canllawiau polisi ac adnoddau ategol sydd ar gael i chi i'w defnyddio wrth gaffael:-

*Canllawiau Meini Prawf Dethol a Dyfarnu*, Gwerth Cymru (2010)
http://prp.wales.gov.uk/planners/general/planning/selectioncriteria/

*Hawliau Cyflogaeth ar adeg Trosglwyddo Ymgymeriad.* Canllaw i Reoliadau TUPE 2006 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Diswyddo Cyfunol a Throsglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 2014 i gyflogeion, cyflogwyr a chynrychiolwyr).

https://www.gov.uk/government/publications/tupe-a-guide-to-the-2006-regulations

*A Fair Deal for Staff Pensions*. Canllawiau diwygiedig 2013.

https://www.gov.uk/staff-transfers-public-service-pension-schemes

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â:

Gwerth Cymru: vwpolicy@wales.gsi.gov.uk

## Atodiad A:

## COD YMARFER AR FATERION GWEITHLU YNG NGHONTRACTAU GWASANAETHAU'R SECTOR CYHOEDDUS

# Triniaeth trosglwyddeion

1 Wrth iddo gontractio gwasanaethau allan, bydd y sefydliad sector cyhoeddus yn cymhwyso'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Natganiad Swyddfa'r Cabinet ar Arferion wrth Drosglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus (Datganiad Swyddfa'r Cabinet) a fersiwn ddiwygiedig 2013 o'r atodiad iddo, A Fair Deal for Staff Pensions.[1] Bydd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaethau ddangos ei fod yn cefnogi'r egwyddorion hyn a'i fod yn fodlon gweithio gyda'r sefydliad sector cyhoeddus i'w rhoi ar waith yn llawn.

2 Bwriad Datganiad Swyddfa'r Cabinet yw y bydd staff yn cael eu trosglwyddo ac y bydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE)[2] yn gymwys, ac o dan amgylchiadau lle nad yw TUPE yn gymwys mewn termau cyfreithiol llym, y dylai egwyddorion TUPE gael eu dilyn ac na ddylai'r staff o dan sylw gael eu trin yn llai ffafriol na phe bai TUPE wedi bod yn gymwys.

3 Roedd 'Fair Deal', yr atodiad i Ddatganiad Swyddfa'r Cabinet (cyn mis Hydref 2013), yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i delerau trosglwyddiad busnes ddiogelu pensiynau'r trosglwyddeion. Roedd yn rhaid i'r staff oedd yn cael eu trosglwyddo barhau i gael bod yn rhan o gynllun pensiwn llywodraeth leol neu gael cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn oedd yn gymharol debyg i'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yr oeddent yn ymadael ag ef.

Mae 'Fair Deal' 2013 yn disgrifio'i effaith yn y ffordd hon (ym mharagraff 1.5) –

> *In future staff who are compulsorily transferred from the public sector will be offered continued access to a public service pension scheme rather than be offered a broadly comparable private pension scheme. In broad terms, all staff whose employment is compulsorily transferred from the public sector under TUPE, including subsequent TUPE transfers, to independent providers of public services will retain access to their current employer's pension arrangements.*

Er mwyn eglurder, o dan y Cod hwn ond yn amodol ar y paragraff nesaf, bydd egwyddorion y Fargen Deg nid yn unig yn gymwys i'r rhai sy'n trosglwyddo o dan TUPE ond hefyd (fel y crybwyllir ym mharagraff 1) i'r rhai sy'n trosglwyddo lle nad yw TUPE'n gymwys mewn termau cyfreithiol caeth.

---

[1] Cafodd Datganiad Swyddfa'r Cabinet ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2000 ac wedyn ei ddiwygio yn 2007, i raddau helaeth i gymryd i ystyriaeth newidiadau yn Rheoliadau TUPE. Cafodd y canllawiau ynghylch y Fargen Deg eu cyhoeddi gan Drysorlys Ei Mawrhydi ym mis Mehefin 1999 fel '*A Fair Deal for Staff Pensions*'. Cawsant eu hailgyhoeddi wedyn ym mis Ionawr 2000 fel ychwanegiad i Ddatganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet. Cafodd y Fargen Deg ei diwygio'n sylweddol ym mis Hydref 2013.

[2] O.S.2006/246.

4 Nid yw'r Fargen Deg 2013 a'r Cod hwn yn gymwys i staff i'r graddau y mae eu darpariaeth pensiwn wedi'i sicrhau o dan Gyfarwyddyd Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymreig (Pensiynau) 2012 (Cyfarwyddyd 2012).[3] Dim ond i staff cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol y mae Cyfarwyddyd 2012 yn gymwys.

5 Mae'r Cod Ymarfer hwn (gan gynnwys cymhwyso Datganiad Swyddfa'r Cabinet a'r canllawiau 'Fair Deal' sy'n cyd-fynd â nhw) yn gymwys hefyd i drosglwyddo gweithgaredd gwasanaeth cyhoeddus, boed yn barhaol neu beidio, a hynny p'un a drosglwyddir i elusen neu i gorff arall yn y gwasanaeth cyhoeddus neu beidio.

Yn ychwanegol –

- at ddibenion y Cod hwn, bernir bod Datganiad Swyddfa'r Cabinet yn dal yn effeithiol hyd yn oed os caiff ei dynnu'n ôl gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig;
- mae'r Cod i fod yn effeithiol yn ystod unrhyw estyniad ar gontract y mae'r Cod hwn yn gymwys iddo.

## Triniaeth aelodau newydd o weithlu contract allanol

6 Pan fo'r darparwr gwasanaethau yn trefnu i staff weithio ar gontract gwasanaeth cyhoeddus ochr yn ochr â staff sydd wedi'u trosglwyddo o'r sefydliad yn y sector cyhoeddus, bydd yn cynnig cyflogaeth ar delerau ac amodau teg a rhesymol nad ydynt, drwyddi draw, yn llai ffafriol na thelerau ac amodau cyflogeion sydd wedi'u trosglwyddo. Bydd y darparwr gwasanaethau hefyd yn cynnig trefniadau pensiwn rhesymol (fel y'u disgrifir ym mharagraff 10 isod).

Yn y Cod hwn, ystyr "aelodau newydd" yw holl staff y darparwr gwasanaethau, p'un a ydynt wedi'u recriwtio at ddibenion contract gwasanaeth cyhoeddus neu'n staff presennol neu'n staff yn y dyfodol i'r darparwr gwasanaethau sy'n cael eu dyrannu i weithio ar y contract gwasanaeth cyhoeddus ochr yn ochr â staff sydd wedi'u trosglwyddo.

Mae'r ddarpariaeth hon yn amodol ar baragraffau 9 a 10.

7 Yr egwyddor sy'n sail i ddarpariaethau paragraff 6 yw ystyried telerau ac amodau cyflogeion (heblaw trefniadau pensiwn yr ymdrinnir â nhw ym mharagraff 11) yn eu crynswth – fel 'pecyn'. Nid yw'r Cod hwn yn atal darparwyr gwasanaethau rhag cynnig pecyn i aelodau newydd o delerau ac amodau heblaw pensiwn sy'n wahanol i becyn staff sydd wedi'u trosglwyddo, cyhyd ag y bydd effaith gyffredinol y newidiadau yn y pecyn yn bodloni'r amodau ym mharagraff 6. Y nod yw darparu fframwaith hyblyg er mwyn i'r darparwr gwasanaethau gynllunio'r pecyn mwyaf addas ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth, ond gwahardd newidiadau a fyddai'n tanseilio natur integredig y tîm neu ansawdd y gweithlu.

8 Bydd y darparwr gwasanaethau yn ymgynghori â chynrychiolwyr undeb llafur os oes un wedi'i gydnabod, neu â chynrychiolwyr etholedig eraill i'r cyflogeion os nad oes undeb llafur cydnabyddedig, ynglŷn â'r telerau a'r amodau sydd i'w cynnig i aelodau newydd o'r fath. (Dylai cyfeiriadau at 'undebau llafur' drwy gydol y Cod hwn gael eu darllen fel petaent yn cyfeirio at gynrychiolwyr etholedig eraill i'r cyflogeion pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig.)
Bydd y trefniadau ymgynghori'n golygu deialog go iawn. Mater i'w gytuno rhwng y darparwr gwasanaethau a'r undebau llafur cydnabyddedig yw union natur y trefniadau ymgynghori. Y

[3] Cafodd Cyfarwyddyd Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymreig (Pensiynau) 2012 ei roi gan Weinidogion Cymru ar 4 Mawrth 2012 (yn effeithiol o 6 Mawrth 2012 ymlaen).

bwriad yw y dylai contractwyr ac undebau llafur cydnabyddedig allu cytuno ar becyn penodol o delerau ac amodau, yn unol â'r Cod, i'w gynnig i aelodau newydd.

9 Cydnabyddir y gall cymhlethdodau godi pan fydd dau neu ragor o sefydliadau sector cyhoeddus yn gwneud contract â darparwr gwasanaeth, a phan fydd dau grŵp neu ragor o gyflogeion yn trosglwyddo. Er mwyn eglurder, dylai'r contract bennu telerau ac amodau pa grŵp o gyflogeion y dylid eu defnyddio ar gyfer y gymhariaeth "heb fod yn llai ffafriol".

10 Os yw'r darparwr gwasanaeth ei hun yn gorff cyhoeddus o fewn sgôp y Cod hwn ac os yw aelodau newydd yn cael eu cyflogi ar yr un telerau ac amodau â staff eraill y corff hwnnw, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer aelodau newydd yn gymwys (ac yn unol â hynny ni ddylid defnyddio'r gymhariaeth "heb fod yn llai ffafriol").

## Trefniadau pensiwn aelodau newydd o weithlu contract allanol

11 Bydd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaethau gynnig un o'r trefniadau a ganlyn ynglŷn â darpariaethau pensiwn i aelodau newydd:

- aelodaeth o gynllun pensiwn llywodraeth leol, lle mae gan y cyflogwr statws corff derbyniedig yn y cynllun a'i fod yn gwneud y cyfraniadau angenrheidiol;
- aelodaeth o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus perthnasol lle mae'r cyflogwr, o dan Fargen Deg 2013, wedi dod i gytundeb cyfranogiad fel y crybwyllir yn y Fargen Deg ac yn gwneud y cyfraniadau gofynnol;
- aelodaeth o gynllun pensiwn sy'n bodloni'r safonau ymrestru awtomatig o dan Ddeddf Pensiynau 2008 (p'un a yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaethau gynnig aelodaeth i aelod newydd ai peidio).

Pan fydd contract y mae'r Cod hwn yn gymwys iddo yn cael ei derfynu a bod y gwaith yn cael ei roi i gontractwr arall, bydd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaethau newydd gynnig un o'r opsiynau pensiwn hyn i unrhyw staff sy'n cael eu trosglwyddo iddo ac a oedd â hawl o dan y Cod i gael un o'r opsiynau pensiwn hyn cyn cael eu trosglwyddo.

## Trefniadau monitro

12 Bydd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaethau roi gwybodaeth yn ôl y gofyn i'r sefydliad sector cyhoeddus (drwy gydol cyfnod y contract ac unrhyw estyniad) yn er mwyn galluogi'r sefydliad sector cyhoeddus i fonitro sut y cydymffurfir â'r amodau a nodir yn y Cod hwn gan y darparwr gwasanaethau a, lle bo'n briodol, gan ei isgontractwyr. Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys telerau ac amodau staff sydd wedi'u trosglwyddo a thelerau ac amodau cyflogeion i'r darparwr gwasanaethau, ac i'r isgontractwyr, sy'n cael eu dyrannu i weithio ar y contract.

13 Cyfyngir ceisiadau o'r fath am wybodaeth i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn monitro'r cydymffurfio; fe'u cynllunnir i osod cyn lleied â phosibl o faich ar y darparwr gwasanaethau ag sy'n gymesur â hyn, ac fe fyddan nhw'n parchu cyfrinachedd masnachol. Bydd y darparwr gwasanaethau a'r sefydliad sector cyhoeddus hefyd yn cefnogi adolygiad o effaith y Cod, a lunnir drwy ymgynghori â chynrychiolwyr sefydliadau yn y sector cyhoeddus, contractwyr, undebau llafur, ac yn darparu gwybodaeth yn unol â'r cais at y diben hwn. Bydd ceisiadau o'r fath yn dilyn yr un egwyddorion ynglŷn â chymesuredd a chyfrinachedd.

14 Bydd sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru a fydd yn nodi:

- nifer y contractau allanol a wnaed;
- nifer y contractau allanol a wnaed lle byddai'r Cod yn gymwys;
- nifer y contractau allanol a wnaed lle cafodd darpariaethau'r Cod eu cynnwys yn y contract;
- nifer y contractau allanol a wnaed lle na chafodd darpariaethau'r Cod eu cynnwys yn y contract a'r rhesymau pam;
- gwybodaeth am sut mae darparwyr gwasanaethau wedi rhoi'r Cod ar waith; a
- gwybodaeth am unrhyw anghydfodau yr ymdriniwyd â nhw drwy'r Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod.

## Gorfodi

15 Bydd y sefydliad sector cyhoeddus yn gorfodi rhwymedigaethau'r darparwr gwasanaethau sy'n cael eu creu drwy gymhwyso'r Cod hwn. Dylai cyflogeion ac undebau llafur cydnabyddedig, yn y lle cyntaf, geisio datrys unrhyw gwynion sydd ganddyn nhw am sut mae'r rhwymedigaethau o dan y Cod hwn yn cael eu bodloni, yn uniongyrchol gyda'r darparwr gwasanaethau. Os yw'n ymddangos i'r sefydliad sector cyhoeddus nad yw'r darparwr gwasanaethau yn bodloni ei rwymedigaethau, neu os bydd cyflogai i'r darparwr gwasanaethau neu undeb llafur cydnabyddedig yn ysgrifennu at y sefydliad sector cyhoeddus i ddweud eu bod wedi methu datrys cwyn yn uniongyrchol gyda'r darparwr gwasanaethau, bydd y sefydliad sector cyhoeddus yn gofyn gyntaf am esboniad gan y darparwr gwasanaethau. Os bydd ymateb y darparwr gwasanaethau'n bodloni'r sefydliad sector cyhoeddus fod y Cod yn cael ei ddilyn, bydd y sefydliad sector cyhoeddus yn rhoi gwybod i unrhyw achwynydd. Os na fydd yr ymateb yn bodloni'r sefydliad sector cyhoeddus bydd yn gofyn i'r darparwr gwasanaethau gymryd camau ar unwaith i gywiro hyn. Yn sgil cais o'r fath, os bydd yn ymddangos i'r sefydliad sector cyhoeddus nad yw'r darparwr gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Cod, bydd y sefydliad sector cyhoeddus yn ceisio gorfodi telerau'r contract, a fydd yn ymgorffori'r Cod hwn.

16 Rhaid i'r contract gynnwys darpariaeth ynglŷn â datrys anghydfodau ynghylch rhoi'r Cod hwn ar waith mewn modd cyflym, effeithlon a chost-effeithiol fel dewis amgen yn lle ymgyfreitha, a hynny gan fwriadu sicrhau ateb y mae pob parti'n ymrwymo iddo. Rhaid i'r darparwr gwasanaethau, y sefydliad sector cyhoeddus a'r undebau llafur cydnabyddedig neu'r cynrychiolwyr eraill i'r staff, i gyd gael mynediad i'r 'Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod' (ADR) (mae'r Atodiad i'r Cod hwn yn nodi'r weithdrefn ADR).

17 Dylai cyflogeion y mae arnyn nhw angen cyngor mewn achosion lle maen nhw o'r farn bod y sefydliad sector cyhoeddus wedi methu â bodloni ei gyfrifoldebau o dan baragraff 15 gysylltu â Llywodraeth Cymru.

## Isgontractwyr

18 Mae'r Cod hwn yn nodi gweithdrefnau ynglŷn â thrafod materion rhwng y sefydliad sector cyhoeddus a phrif ddarparwr gwasanaethau. Os bydd y prif ddarparwr gwasanaethau n trosglwyddo staff a oedd yn wreiddiol yn cael eu cyflogi gan y sefydliad sector cyhoeddus i isgontractwr, bydd y prif ddarparwr gwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau bod yr isgontractwr yn cadw at y Cod hwn.

## Gweithredu'r Cod

19 Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro sut mae'r Cod yn cael ei weithredu, ar ôl ymgynghori â chyflogwyr ac undebau llafur perthnasol.

**Llywodraeth Cymru 2014**

## ATODIAD :

### Cod Ymarfer ar Faterion Gweithlu:
### Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR)

## Rhagymadrodd

Mae'r Atodiad hwn yn nodi gweithdrefn ynglŷn â datrys anghydfodau sy'n codi o ddefnyddio'r Cod Ymarfer ar Faterion Gweithlu. Fel y cam olaf y dylai'r weithdrefn gael ei defnyddio a bydd pob parti'n ceisio'u gorau glas i ddatrys problemau drwy gytuno. Dylai gweithdrefn yr ADR fod yn gyflym, yn effeithlon ac yn gost-effeithiol.

## Yr angen i ddihysbyddu'r gweithdrefnau lleol

Rhaid i'r partïon ddihysbyddu'r holl weithdrefnau lleol yn unol â gofynion paragraff 8 a pharagraff 15 o'r Cod cyn troi at weithdrefn yr ADR y darperir ar ei chyfer ym mharagraff 16.

## Pwy sy'n gyfrifol am ddatrys anghydfodau?

Bydd gweithdrefn yr ADR o dan oruchwyliaeth person annibynnol a benodir oddi ar restr wedi'i chymeradwyo a roddir gan ACAS. Os bydd y partïon yn cytuno, cânt benodi dau “aelod asgell” gyda chefndir ymhlith cyflogwyr ac undebau llafur i helpu'r person annibynnol.

## Y broses datrys anghydfodau

Caiff anghydfodau eu datrys drwy ddefnyddio gweithdrefn sy'n cynnwys tri chyfnod.

### Cyfnod 1: Y person annibynnol

Gwahoddir y person annibynnol i ateb tri chwestiwn:

i) Ai anghydfod ynglŷn â chymhwyso'r Cod yw hwn?
Os nage yw'r ateb, all y mater ddim mynd ymhellach. Os ie, yna bydd y person annibynnol yn symud i gwestiwn (ii).

ii) Ydy'r partïon wedi dihysbyddu'r gweithdrefnau lleol?
Os nac ydynt yw'r ateb, yna gwahoddir y partïon i wneud rhagor o ymdrechion yn lleol i ddatrys yr anghydfod. Os ydyn, yna bydd y person annibynnol yn cynnal asesiad annibynnol, drwy ateb cwestiwn (iii) ac yn rhoi rhesymau dros yr ateb.

(iii) Ydy'r telerau ac amodau cyflogaeth sydd ar gael i aelodau newydd yn cydymffurfio â'r Cod?

Os ydynt yw'r ateb, yna bernir bod y mater wedi'i gau a gall y contractwr barhau i gynnig yr un pecyn o amodau i aelodau newydd. Os nac ydy yw'r ateb, yna aiff yr anghydfod ymlaen i Gyfnod 2.

**Terfyn amser:** Ugain diwrnod gwaith.

### Cyfnod 2: Trafodaethau gyda golwg ar gyrraedd cytundeb ynghylch telerau ac amodau sy'n cydymffurfio

Mae Cyfnod 2 yn dechrau drwy wahodd y partïon i geisio datrys y mater drwy ragor o drafod. Bydd y person annibynnol yn trefnu ei fod ar gael i'r partïon i hwyluso'r broses. Mae gan y partïon yr opsiwn hefyd o sefydlu trefniadau eraill ar gyfer cyfryngu. Os gall y partïon ddod i gytundeb sy'n gyson â'r Cod yna mae'r mater yn cael ei gau a bydd y pecyn newydd o amodau cyflogaeth yn gymwys i ddechreuwyr newydd ac i'r rhai a oedd yn cael eu cyflogi yn ystod yr anghydfod. Os nad oes modd dod i gytundeb yn yr amser sydd wedi'i neilltuo, yna aiff yr anghydfod ymlaen i Gyfnod 3.

**Terfyn amser:** Deg diwrnod gwaith, gyda'r posibilrwydd o ymestyn hynny drwy gytundeb y partïon a chydsyniad y person annibynnol.

### Cyfnod 3: Cyfeiriad terfynol at y person annibynnol

Mae'r person annibynnol yn gwahodd y partïon i wneud cyflwyniad terfynol. Os yw'r person annibynnol yn credu y byddai hynny'n fuddiol, gellir rhoi cyfnod byr o drafod pellach i'r partïon. Os nad oes gwerth mewn rhoi rhagor o amser i'r partïon – neu os na lwyddodd y partïon i gytuno yn ystod y trafod ar sut i ddod â'r mater i ben yn llwyddiannus – yna bydd y person annibynnol yn symud ymlaen i gyflafareddiad cyfrwymol terfynol. Ar ôl gwrando'r dystiolaeth a dod i gasgliad bydd y person annibynnol yn gosod pecyn diwygiedig o delerau ac amodau sy'n gymwys i bob un o'r cyflogeion yr effeithiwyd arnyn nhw.

**Terfyn amser:** Deg diwrnod gwaith
******************************************************************************************

**Atodiad B**

## TELERAU AC AMODAU ENGHREIFFTIOL

**Gwneir y CYTUNDEB HWN ar** 2014

**RHWNG**

(1) [**Enw'r Awdurdod** ] o [Cyfeiriad] (yr **Awdurdod**); a

(2) [**Contractwr Cyfyngedig**] (rhif cofrestredig y cwmni: ) y mae ei swyddfa gofrestredig yn [Cyfeiriad] (y **Contractwr**)

y mae pob un yn **Barti** a gyda'i gilydd y **Partïon ydynt**

**Diffiniadau a Dehongli**

[4]**Awdurdod Gweinyddu**
mae i Awdurdod Gweinyddu yr ystyr a roddir iddo yn Atodiad 1 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol 2013 (OS Rhif 2356)

**Cytundeb Derbyn**
mae i Gytundeb Derbyn yr ystyr a roddir iddo yn Atodiad 1 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol 2013 (OS Rhif 2356)

**Corff Derbyn**
mae i Gorff Derbyn yr ystyr a roddir iddo yn Atodiad 1 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol 2013 (OS Rhif 2356)

**Darpariaeth Pensiwn Briodol**
mewn perthynas â Chyflogeion Cymwys, naill ai:
(a) aelodaeth, aelodaeth barhaus neu gymhwysedd parhaus i fod yn aelod o'u Cynllun Etifeddol; neu
(b) aelodaeth neu gymhwysedd i fod yn aelod o gynllun pensiwn, y mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ardystio ei fod yn gymaradwy yn fras â thelerau'r Cynllun Etifeddol;

**Cyflogeion a Aseiniwyd**
mae i Gyflogeion a Aseiniwyd yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 1.7 (Aildendro);

**Cyflogai Presennol yr Awdurdod**
mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth sy'n cyfateb i unrhyw rai o'r Gwasanaethau, pob person a gyflogir gan yr Awdurdod o dan gontract cyflogaeth (ond heb gynnwys unrhyw berson a benodir gan yr Awdurdod yn gontractwr annibynnol neu bersonau a gyflogir gan unrhyw is-gontractwr a benodir gan yr Awdurdod) sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n sylweddol â darparu'r gwasanaeth hwnnw ar Ddyddiad Trosglwyddo'r Gwasanaeth;

**Awdurdod**
yr awdurdod contractio neu'r corff sector cyhoeddus yng Nghymru y mae'r Cod Ymarfer wedi'i gyfeirio ato;

---

[4] Ni fydd angen y diffiniad hwn os mai'r Awdurdod Gweinyddu yw'r Awdurdod hefyd.

**Dyddiad Terfynu**
unrhyw ddyddiad pan fydd y Contractwr yn peidio â bod yn Gorff Derbyn neu'n peidio â bod yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun Etifeddol heblaw am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol am fod y Cytundeb hwn wedi'i derfynu neu wedi dod i ben neu am ei fod yn peidio â chyflogi unrhyw Gyflogeion Cymwys;

**Cod**
Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu mewn Contractau Gwasanaeth yn y Sector Cyhoeddus 2014;

**Rhwymedigaethau'r Cod**
rhwymedigaethau datganedig y Contractwr yng nghymal 1.6 (Cydymffurfio â Rhwymedigaethau'r Cod);

**Colledion Uniongyrchol**
pob difrod, colled, rhwymedigaeth, hawliad, gweithred, cost, traul (gan gynnwys cost gwasanaethau cyfreithiol neu broffesiynol, gyda chostau cyfreithiol ar sail indemniad), achos, archeb am dâl a thâl p'un a ydynt yn codi o dan statud, contract neu gyfraith gwlad;

**Dyddiad y Daw yn Weithredol**
y dyddiad(au) y mae'r Gwasanaethau (neu unrhyw ran o'r Gwasanaethau) yn trosglwyddo o'r Awdurdod [neu unrhyw Gyflogwr Trydydd Parti] i'r Darparwr Gwasanaeth neu'r Is-gontractwr, a thybir bod cyfeiriad at y Dyddiad y Daw yn Weithredol yn cyfeirio at y dyddiad y trosglwyddodd y cyflogeion dan sylw neu y byddant yn trosglwyddo i'r Darparwr Gwasanaeth neu'r Is-gontractwr;

**Cyflogeion Cymwys**
Cyflogeion sy'n Gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chyflogeion nad ydynt yn Gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

**Gwybodaeth am Atebolrwydd Cyflogeion**
caiff y wybodaeth am atebolrwydd cyflogeion ei darparu yn unol â Rheoliad 11 o TUPE;

**Darparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol**
bydd i Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol yr ystyr a roddir yng nghymal 1.4.4 (Indemniadau);

**Cynllun Etifeddol**
y cynllun pensiwn y mae'r Cyflogeion Cymwys yn aelodau ohono, neu'n gymwys i fod yn aelodau ohono, neu'n aros i ddod yn aelod ohono, cyn y Trosglwyddiad Perthnasol;

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a sefydlwyd yn unol â rheoliadau a wneir wrth arfer pwerau o dan adrannau 7 a 12 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1872 (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd);

**Cyflogai sy'n Gymwys i fod yn Rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**
(a) Cyflogeion sy'n Trosglwyddo sy'n aelodau gweithredol o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (neu'n gymwys i ymuno ag ef) ar ddyddiad y Trosglwyddiad Perthnasol gan gynnwys y Dyddiad y Daw yn Weithredol; a/neu
(b) Cyflogeion Trydydd Parti sy'n gyn-gyflogeion yr Awdurdod ac a oedd yn aelodau gweithredol o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (neu a oedd yn gymwys i ymuno ag ef) ar ddyddiad Trosglwyddiad Perthnasol blaenorol o Wasanaethau;

**Staff Newydd Ymuno**
pob aelod o staff y Contractwr a/neu unrhyw Is-gontractwr, p'un a ydynt yn cael eu recriwtio at ddiben y contract gwasanaeth cyhoeddus neu a ydynt eisoes yn aelodau o staff y darparwr gwasanaeth neu y byddent yn aelodau o staff yn y dyfodol, sydd wedi'u neilltuo i weithio ar y contract gwasanaeth cyhoeddus ochr yn ochr â'r Cyflogeion sy'n Trosglwyddo;

**Cyflogai nad yw'n Gymwys i fod yn Rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

(a) Cyflogeion sy'n Trosglwyddo sy'n aelodau gweithredol o Gynllun Etifeddol (neu'n gymwys i ymuno ag ef) heblaw am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ddyddiad y Trosglwyddiad Perthnasol gan gynnwys y Dyddiad y Daw yn Weithredol; a/neu

(b) Cyflogeion Trydydd Parti sy'n gyn-gyflogeion yr Awdurdod ac a oedd yn aelodau gweithredol o Gynllun Etifeddol (neu a oedd yn gymwys i ymuno ag ef) heblaw am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ddyddiad Trosglwyddiad Perthnasol blaenorol o Wasanaethau;

**Awdurdod sy'n Cyfranogi**

unrhyw sefydliad y mae'n ofynnol iddo o dan y darpariaethau sy'n llywodraethu unrhyw Gynllun Etifeddol oruchwylio'r ffordd y caiff yr holl gyfryw Gynllun neu ran ohono ei weinyddu;

[5]**Cytundeb Cyfranogi**

ystyr Cytundeb Cyfranogi yw cytundeb rhwng Awdurdod sy'n Cyfranogi a'r Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr y gall unigolion a enwyd, neu bob dosbarth neu unrhyw ddosbarth penodedig o gyflogeion y Contractwr neu'r Is-gontractwr fod yn aelodau o Gynllun Etifeddol heblaw am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

**Tâl**

y cyflog sylfaenol arferol neu isafswm cyflog ac unrhyw gydnabyddiaeth arall, boed hynny mewn arian parod neu mewn da, y mae Cyflogai sy'n Trosglwyddo yn ei gael naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn perthynas â'i gyflogaeth neu ei chyflogaeth â'r Awdurdod;

**Cyflogeion Perthnasol**

y cyflogeion y mae a wnelo Trosglwyddiad Perthnasol â hwy;

**Trosglwyddiad Perthnasol**

trosglwyddiad perthnasol at ddibenion TUPE;

**Cyflogeion sy'n Dychwelyd**

mae i Gyflogeion sy'n Dychwelyd yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 1.7 (Aildendro) a chymal 1.8.2 (Terfynu Cytundeb);

**Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth**

trosglwyddo ar ddyddiad y cytunwyd arno gan y Partïon gyfrifoldeb am ddarparu (neu gaffael y ddarpariaeth gan Is-gontractwyr) y Gwasanaethau i'r Contractwr yn unol â'r Cytundeb hwn [NODER - os yw'n debygol y bydd mwy nag un dyddiad trosglwyddo - diffiniwch "Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth Perthnasol" - "trosglwyddo ar un neu fwy o ddyddiadau y cytunwyd arno neu arnynt gan y Partïon (y mae pob un yn "Ddyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth Perthnasol") gyfrifoldeb am ddarparu (neu gaffael y ddarpariaeth gan Is-gontractwyr) y Gwasanaethau i'r Contractwr yn unol â'r Cytundeb hwn];

**Gwasanaethau**

y Gwasanaethau y mae'n ofynnol i'r Contractwr eu darparu o dan y Cytundeb hwn;

[**Grŵp Penodedig a Cyflogeion sy'n Trosglwyddo**

y grŵp neu'r categori o gyflogeion a ddisgrifir yn Atodiad ● i'r Cytundeb hwn;]

**Cyflogeion Trydydd Parti**

Cyflogeion Cyflogwyr Trydydd Parti y mae eu contractau cyflogaeth yn trosglwyddo'n weithredol o'r Dyddiad y Daw yn Weithredol i'r Contractwr neu Is-gontractwr drwy gymhwyso TUPE;

---

[5] Nid yw'r telerau o ran gallu cyflogwyr trydydd parti i fod yn rhan o gynlluniau pensiwn yn y sector cyhoeddus heblaw am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'u pennu'n derfynol eto ac efallai y bydd angen newid ambell gyfeiriad, gan gynnwys "Cyflogeion nad ydynt yn Gymwys i fod yn Rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol", "Awdurdod sy'n Cyfranogi", "Cytundeb Cyfranogi" a chymal 2.3 pan fydd yr union delerau yn hysbys.

**Cyflogwr Trydydd Parti**
Darparwr gwasanaeth a benodir gan yr Awdurdod i ddarparu Gwasanaethau i'r Awdurdod cyn y Dyddiad y Daw yn Weithredol ac y bydd ei gyflogeion yn trosglwyddo i'r Contractwr ar y Dyddiad y Daw yn Weithredol;

**Cyflogai sy'n Trosglwyddo**
cyflogai i'r Awdurdod (heb gynnwys, yn ddigyfyngiad, unrhyw berson a benodir gan yr Awdurdod yn gontractwr annibynnol neu bersonau a gyflogir gan unrhyw is-gontractwr a benodir gan yr Awdurdod) y mae ei gontract cyflogaeth, drwy gymhwyso TUPE mewn perthynas â'r hyn a wneir at ddibenion gweithredu'r Cytundeb hwn rhwng yr Awdurdod a'r Contractwr, yn dod yn gontract cyflogaeth â rhywun heblaw am yr Awdurdod;

**TUPE**
Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (OS Rhif 246) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diswyddo ar y Cyd a Throsglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 2014 (OS Rhif 16).

## TUPE A CHYFLOGEION

### Trosglwyddiadau Perthnasol

Mae'r Awdurdod a'r Contractwr yn cytuno y bydd y digwyddiadau canlynol:

1.1.1 y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth; a

1.1.2 lle mae darparwr (gan gynnwys yr Awdurdod) unrhyw wasanaeth sy'n gyfystyr ag un o'r Gwasanaethau neu a fydd yn gyfystyr ag un o'r Gwasanaethau yn cael ei newid boed hynny cyn gwneud newidiadau yn unol â'r Cytundeb hwn ai peidio,

yn gyfystyr â Throsglwyddiad Perthnasol ac y bydd contractau cyflogaeth (ynghyd ag unrhyw gytundeb ar y cyd) unrhyw Gyflogeion Perthnasol yn dod yn weithredol (yn ddarostyngedig i Reoliad 4(7) o TUPE) wedi hynny fel pe bai wedi'i lunio rhwng y cyflogeion hynny a'r darparwr newydd ac eithrio i'r graddau y mae'r cyfryw gontractau yn ymwneud ag unrhyw fudd-daliadau oherwydd henaint, anabledd neu oroeswyr o dan unrhyw gynllun pensiwn galwedigaethol ([oni fydd yn ofynnol o dan adrannau 257 a 258 o Ddeddf Pensiynau 2004)]. Ar adeg Trosglwyddiad Perthnasol (oni bai bod y Cytundeb hwn yn dod i ben neu'n cael ei derfynu) bydd y Contractwr yn peri i'r cyn-Is-gontractwr a'r Is-gontractwr newydd gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan TUPE.

Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan TUPE mewn perthynas â phob Trosglwyddiad Perthnasol yn unol â'r Cytundeb hwn a bydd y Contractwr yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau ac yn peri i bob Is-gontractwr gydymffurfio â hwy (gan gynnwys Rheoliad 13(4) o TUPE) mewn perthynas â phob Trosglwyddiad Perthnasol yn unol â'r Cytundeb hwn a bydd yr Awdurdod a'r Contractwr yn indemnio ei gilydd rhag unrhyw Golledion Uniongyrchol a brofir o ganlyniad i unrhyw achos o dorri'r cymal 1.1 hwn gan y Parti nad yw'n cydymffurfio.

### 1.2 Cynnig Cyflogaeth

1.2.1 Os nad yw TUPE yn gymwys i unrhyw berson sy'n Gyflogai Presennol yr Awdurdod, bydd y Contractwr yn cynnig neu y bydd yn peri i'r Is-gontractwr perthnasol gynnig i bob cyfryw gyflogai gontract cyflogaeth newydd yn dechrau ar y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth na fydd ei delerau ac amodau gan gynnwys parhad llawn cyflogaeth yn wahanol i'r telerau ac amodau hynny a gafwyd yn union cyn y Dyddiad

Trosglwyddo Gwasanaeth (ac eithrio i'r graddau y mae'r cyfryw delerau ac amodau yn ymwneud â chynllun pensiwn galwedigaethol) a bydd y cynnig yn ysgrifenedig, bydd yn agored i'w dderbyn am gyfnod nad yw'n llai na deg (10) Diwrnod Busnes a bydd yn cael ei wneud:

os credir na fydd TUPE yn gymwys i berson, cyn deg (10) Diwrnod Busnes cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth; neu

os credir bod TUPE yn gymwys i berson ond penderfynir wedyn nad yw TUPE yn gymwys, cyn gynted ag y bo'n ymarferol a sut bynnag heb fod yn hwyrach na deg (10) Diwrnod Busnes ar ôl i'r penderfyniad hwnnw fod yn hysbys i'r Contractwr.

1.2.2 Lle y derbynnir unrhyw gyfryw gynnig y cyfeirir ato yng nghymal 1.2.1, bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â thelerau cymal 1.3.1 a bydd yn indemnio'r Contractwr ac yn parhau i'w indemnio'n llawn ar yr un telerau ac amodau â'r rhai a nodir yng nghymalau 1.4.1, 1.4.2 a 1.4.3 o'r Cytundeb hwn fel pe bai Trosglwyddiad Perthnasol wedi bod mewn perthynas â phob un o Gyflogeion Presennol yr Awdurdod sydd wedi derbyn unrhyw gyfryw gynnig.

1.2.3 Lle y derbynnir unrhyw gyfryw gynnig ag y cyfeirir ato yng nghymal 1.2.1, bydd y Contractwr yn gweithredu ac yn peri i bob Is-gontractwr perthnasol weithredu ym mhob ffordd berthnasol fel pe bai TUPE wedi bod yn gymwys i bob un o Gyflogeion Presennol yr Awdurdod sydd wedi derbyn unrhyw gyfryw gynnig a bydd yn cydymffurfio â chymal 2 (Pensiynau) o'r Cytundeb hwn mewn perthynas â phob cyfryw gyflogai a oedd yn Gyflogai Presennol yr Awdurdod yn union cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth.

1.2.4 Lle na dderbynnir unrhyw gynnig fel y cyfeirir ato yng nghymal 1.2.1 ac nad yw TUPE yn gymwys, bydd Cyflogai Presennol perthnasol yr Awdurdod yn parhau i fod yn un o gyflogeion yr Awdurdod.

## 1.3 Enillion a Gwariant

1.3.1 Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am bob cydnabyddiaeth, budd, hawl a gwariant mewn perthynas â'r Cyflogeion sy'n Trosglwyddo, ac unrhyw berson arall sy'n trosglwyddo i'r Contractwr (neu unrhyw Is-gontractwr perthnasol) yn unol â chymal 1.2, gan gynnwys yn ddigyfyngiad bob cyflog, tâl am wyliau, bonws, comisiwn, tâl TWE, Cyfraniad Yswiriant Gwladol, cyfraniad pensiwn ac fel arall, hyd at y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth.

1.3.2 Bydd y Contractwr yn gyfrifol neu bydd yn peri i unrhyw Is-gontractwr perthnasol fod yn gyfrifol am bob cydnabyddiaeth, budd, hawl a gwariant mewn perthynas â'r Cyflogeion Perthnasol ac unrhyw berson arall sy'n trosglwyddo i'r Contractwr (neu unrhyw Is-gontractwr perthnasol) yn unol â chymal 1.2 neu sy'n cael ei gyflogi neu ei benodi gan y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr mewn cysylltiad â darparu unrhyw rai o'r Gwasanaethau, gan gynnwys yn ddigyfyngiad bob cyflog, tâl am wyliau, bonws, comisiwn, tâl TWE, cyfraniad Yswiriant Gwladol, cyfraniad pensiwn ac fel arall, o'r Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth a chan gynnwys y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth.

## 1.4 Indemniadau

1.4.1 Bydd yr Awdurdod yn indemnio'r Contractwr (drosto ei hun ac er budd pob Is-gontractwr perthnasol) ac yn parhau i'w indemnio'n llawn rhag pob Colled Uniongyrchol a brofir gan y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr perthnasol mewn cysylltiad â'r canlynol neu o ganlyniad i'r canlynol:

(a) os bydd yr Awdurdod yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau o dan gymal 1.3.1; a

(b) yn ddarostyngedig i gymal 1.4.1 unrhyw hawliad neu archeb am dâl gan unrhyw Gyflogai sy'n Trosglwyddo sy'n deillio o unrhyw weithred, diffyg neu anwaith gan yr Awdurdod mewn perthynas ag unrhyw gyfryw gyflogai cyn dyddiad y Trosglwyddiad Perthnasol (oni bai bod y cyfryw weithred, diffyg neu anwaith o ganlyniad i fethiant y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr perthnasol i gydymffurfio â Rheoliad 13 o TUPE) ac nad oes unrhyw gyfryw hawliad yn gysylltiedig â'r Trosglwyddiad Perthnasol.

1.4.2 Lle y bydd unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw Gyflogai sy'n Trosglwyddo, mewn perthynas â'i gyflogaeth neu ei chyflogaeth gan yr Awdurdod neu ei therfynu sy'n trosglwyddo'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn unol â TUPE a/neu'r Gyfarwyddeb yn deillio'n rhannol o ganlyniad i unrhyw weithred neu anwaith sy'n digwydd ar neu cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth ac yn rhannol o ganlyniad i unrhyw weithred neu anwaith sy'n digwydd ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth, bydd yr Awdurdod yn indemnio'r Contractwr neu'r Is-gontractwr perthnasol ac yn parhau i'w indemnio'n llawn rhag y cyfryw ran yn unig o'r Colledion Uniongyrchol a brofir gan y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr o ganlyniad i'r atebolrwydd ag y gellir yn rhesymol eu priodoli i'r weithred neu'r anwaith sy'n digwydd cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth.

1.4.3 Bydd yr indemniadau a geir yng nghymal 1.4.1 yn gymwys fel petai cyfeiriadau yn y cymalau hynny at unrhyw Gyflogai sy'n Trosglwyddo hefyd wedi cynnwys cyfeiriad at unrhyw Gyflogai Perthnasol ac fel petai cyfeiriadau at unrhyw weithred, diffyg neu anwaith gan yr Awdurdod hefyd wedi cynnwys cyfeiriad at gyflogwr Contractwr Trydydd Parti perthnasol y Cyflogai Perthnasol cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth i'r graddau y mae'r Awdurdod yn adennill unrhyw swm mewn perthynas â thestun yr indemniadau hynny oddi wrth y cyfryw Gontractwr Trydydd Parti o dan unrhyw indemniad neu hawliad cyfreithiol arall sydd ganddo yn erbyn y cyfryw Gontractwr Trydydd Parti. Bydd yr Awdurdod yn gwneud pob ymdrech resymol i adennill unrhyw gyfryw symiau o dan unrhyw gyfryw hawliad ag a grybwyllir yn y cymal 1.4.3. hwn.

1.4.4 Bydd y Contractwr yn indemnio'r Awdurdod ac yn parhau i'w indemnio'n llawn, ac ar gais yr Awdurdod yn indemnio pob darparwr gwasanaeth a fydd yn darparu unrhyw wasanaeth sy'n cyfateb i unrhyw rai o'r Gwasanaethau yn union ar ôl i'r Cytundeb hwn ddod i ben neu ar ôl iddo gael ei derfynu'n gynharach (Darparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol) rhag:

(a) pob Colled Uniongyrchol a brofir gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol mewn cysylltiad ag unrhyw hawliad neu archeb am dâl neu o ganlyniad i unrhyw hawliad neu archeb am dâl yn erbyn yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol gan (i) unrhyw berson sy'n cael neu sydd wedi cael ei gyflogi neu ei benodi gan y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr mewn cysylltiad â darparu unrhyw rai o'r Gwasanaethau neu gan (ii) unrhyw undeb llafur neu gymdeithas staff neu gynrychiolydd unrhyw gyflogai mewn perthynas ag unrhyw gyfryw berson, yn y naill achos neu'r llall lle mae'r cyfryw hawliad yn deillio o ganlyniad i unrhyw

weithred, diffyg neu anwaith gan y Contractwr a/neu unrhyw Is-gontractwr ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth;

(b) pob Colled Uniongyrchol a brofir gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarpar Gwasanaeth yn y Dyfodol mewn cysylltiad ag achos lle mae'r Contractwr wedi torri ei rwymedigaethau o dan gymal 1.3.2 neu o ganlyniad i dorri ei rwymedigaethau o dan gymal 1.3.2; a

(c) pob Colled Uniongyrchol a brofir gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol mewn cysylltiad ag unrhyw hawliad gan unrhyw Gyflogai Perthnasol, undeb llafur neu gymdeithas staff neu gynrychiolydd unrhyw gyflogai neu o ganlyniad i unrhyw gyfryw hawliad (p'un a yw'n cael ei gydnabod neu ei chydnabod gan y Contractwr a/neu'r Is-gontractwr perthnasol mewn perthynas â'i holl Gyflogeion Perthnasol neu unrhyw un o'i Gyflogeion Perthnasol) sy'n deillio o unrhyw fethiant gan y Contractwr a/neu unrhyw Is-gontractwr neu mewn cysylltiad â methiant y Contractwr a/neu unrhyw Is-gontractwr i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i'r cyfryw undeb llafur, cymdeithas staff neu gynrychiolydd arall unrhyw gyflogai boed hynny o dan Reoliad 13 o TUPE, o dan y Gyfarwyddeb neu fel arall a, ph'un a oes unrhyw hawliad arall yn deillio neu wedi deillio cyn neu ar ôl dyddiad y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth.

1.4.5 Bydd y Contractwr yn indemnio'r Awdurdod, ac yn parhau i'w indemnio'n llawn, rhag pob Colled Uniongyrchol a brofir gan yr Awdurdod mewn cysylltiad â'r canlynol neu o ganlyniad i'r canlynol:

(a) unrhyw hawliad gan unrhyw Gyflogai Perthnasol bod unrhyw newid sylweddol arfaethedig neu wirioneddol gan y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr i amodau gwaith y Cyflogeion Perthnasol neu unrhyw fesurau arfaethedig gan y Contractwr neu'r Is-gontractwr perthnasol yn andwyol i'r cyflogai p'un a yw'r cyfryw hawliad yn deillio cyn neu ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth; a

(b) unrhyw hawliad sy'n deillio o unrhyw achos o gamliwio neu gamddatgan boed hynny drwy esgeuluster neu fel arall gan y Contractwr neu'r Is-gontractwr i'r Cyflogeion Perthnasol neu eu cynrychiolwyr boed hynny cyn ar neu ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth ac a yw atebolrwydd am unrhyw gyfryw hawliad yn deillio ar neu ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth.

1.4.6 Ni fydd yr indemniadau yng nghymalau 1.4.4 a 1.4.5 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw swm y bydd yr Awdurdod yn indemnio'r Contractwr neu Is-gontractwr perthnasol yn ei gylch yn unol â chymal 1.4.1 neu i'r graddau y mae'r hawliad yn deillio o weithred anghywir neu anwaith gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol.

## 1.5 Darparu Manylion ac Indemnio

Bydd y Contractwr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn pum (5) Diwrnod Busnes ar ôl cais ysgrifenedig gan yr Awdurdod yn darparu manylion i'r Awdurdod ynghylch unrhyw gamau y bydd y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr yn rhagweld y bydd neu y byddant yn eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw gyflogeion sydd neu a fydd yn destun Trosglwyddiad Perthnasol, ac os na fwriedir cymryd camau, cadarnhad o'r ffaith honno, a bydd yn indemnio'r Awdurdod rhag pob Colled Uniongyrchol sy'n deillio o unrhyw fethiant gan y Contractwr i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon.

### 1.6 Cydymffurfio â Rhwymedigaethau'r Cod

1.6.1 Bydd yr Awdurdod a'r Contractwr yn ystyried y Cod (a bydd y Contractwr yn peri i unrhyw Is-gontractwr ystyried y Cod) wrth ddehongli a chymhwyso Rhwymedigaethau'r Cod.

1.6.2 Yn ychwanegol at ei rwymedigaethau yn unol â chymal 1.2 ac yn ddarostyngedig i gymal 1.6.4, bydd y Contractwr yn peri i unrhyw Staff Newydd Ymuno gael eu cyflogi ar delerau ac amodau cyflogaeth sydd:

(a) yn deg ac yn rhesymol yn gyffredinol ac nad ydynt yn llai ffafriol na thelerau ac amodau'r Cyflogeion sy'n Trosglwyddo [neu, lle mae cyflogeion yn trosglwyddo o fwy nag un Awdurdod, y Grŵp Penodedig o Gyflogeion sy'n Trosglwyddo)] sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau ac sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Staff Newydd Ymuno ac sy'n dal yr un swydd â Staff Newydd Ymuno neu swydd debyg; neu

(b) yr un fath â thelerau ac amodau staff presennol y Contractwr, lle mae'r telerau ac amodau cyflogaeth hynny yn destun cytundeb cenedlaethol.

1.6.3 Bydd y Contractwr yn ymgynghori â'r undebau llafur cydnabyddedig, ac yn peri i unrhyw Is-gontractwr perthnasol ymgynghori â'r undebau llafur cydnabyddedig a lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig unrhyw gorff arall sy'n cynrychioli cyflogeion ynglŷn â'r telerau sydd i'w cynnig i'r Staff Newydd Ymuno yn unol â chymal 1.6.2.

1.6.4 Yn ychwanegol at ei rwymedigaethau o dan gymal 1.6.2, bydd y Contractwr yn peri bod y Staff Newydd Ymuno yn cael cynnig:

(a) aelodaeth o Gynllun Pensiwn Llywodraeth leol lle mae'r Contractwr wedi ymrwymo i Gytundeb Derbyn; neu

(b) aelodaeth o'r Cynllun Etifeddol perthnasol heblaw am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, lle mae'r cyflogwr, o dan Fargen Deg 2013[6], wedi ymrwymo i Gytundeb Cyfranogi fel y'i nodir yn y Fargen Deg; neu

(c) aelodaeth o gynllun pensiwn sy'n cyrraedd safonau awto-gofrestru o dan Ddeddf Pensiynau 2008 (p'un a yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnig aelodaeth i'r Staff Newydd Ymuno ai peidio).

1.6.5 Yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn, bydd y Contractwr yn darparu'r cyfryw wybodaeth gywir a chyflawn ag y mae'r Awdurdod yn gofyn amdani cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, neu'n peri bod yr Awdurdod yn cael y cyfryw wybodaeth, gan gynnwys telerau ac amodau cyflogaeth y Cyflogeion sy'n Trosglwyddo a'r Staff Newydd Ymuno, lle mae ei hangen er mwyn monitro cydymffurfiaeth y Contractwr â'i Rwymedigaethau o dan y Cod.

1.6.6 Bydd y Contractwr yn cefnogi'r adolygiad a'r rhaglenni monitro a noddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag effaith y Cod[7] ac yn peri i unrhyw Is-gontractwr perthnasol eu cefnogi ac yn rhoi'r cyfryw wybodaeth gywir a chyflawn ag y mae'r Awdurdod yn gofyn amdani i'r Awdurdod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i wneud hyn.

---

[6] A Fair Deal for Staff Pensions (Hydref 2013) – Atodiad i Ddatganiad Swyddfa'r Cabinet o Arfer ynglŷn â Throsglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus

[7] Mae manylion y gofynion adrodd a wynebir gan gyrff cyhoeddus wedi'u cynnwys yn y Cod yn Atodiad A.

1.6.7 Bydd yr Awdurdod a'r Contractwr yn ceisio datrys unrhyw gwynion gan unrhyw gyflogai neu unrhyw undeb llafur cydnabyddedig mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Contractwr ac unrhyw Is-gontractwr â'i rwymedigaethau o dan y Cod drwy drafodaethau rhyngddynt yn y lle cyntaf.

1.6.8 Lle yr ymddengys i'r Awdurdod neu'r Contractwr nad oes modd datrys y mater drwy barhau â'r trafodaethau rhyngddynt yn unol â chymal 1.6.7 neu lle mae un o gyflogeion y Contractwr neu unrhyw undeb llafur cydnabyddedig yn ysgrifennu at yr Awdurdod i gadarnhau nad yw wedi llwyddo i ddatrys ei gŵyn yn uniongyrchol â'r Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr mewn perthynas â Rhwymedigaethau'r Contractwr o dan y Cod:

(a) bydd yr Awdurdod yn ysgrifennu at y Contractwr yn gyntaf i ofyn am esboniad ynglŷn â'r methiant honedig gan y Contractwr i gydymffurfio â'i Rwymedigaethau o dan y Cod. Bydd y Contractwr yn rhoi'r cyfryw esboniad yn ysgrifenedig o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith i dderbyn y cais gan yr Awdurdod neu'n peri i'r Is-gontractwr perthnasol wneud hynny;

(b) os bydd yr ymateb gan y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr yn bodloni'r Awdurdod bod Rhwymedigaethau'r Cod wedi cael eu cyflawni, yna bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r achwynydd am hyn;

(c) os na fydd yr Awdurdod yn fodlon ar ymateb y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr bydd yr Awdurdod yn ysgrifennu at y Contractwr yn gofyn i'r Contractwr gymryd camau ar unwaith i ddatrys yr anghydfod hwn; ac

(ch) os ymddengys o hyd i'r Awdurdod nad yw'r Contractwr yn cydymffurfio â'i Rwymedigaethau o dan y Cod ar ôl y cyfryw gais gan yr Awdurdod, bydd yr Awdurdod yn ceisio gorfodi telerau'r cymal 1.6 hwn.

1.6.9 Bydd yr Awdurdod, y Contractwr (neu unrhyw Is-gontractwr) ac unrhyw undebau llafur cydnabyddedig a/neu gynrychiolwyr staff eraill yn gallu defnyddio'r Dull Amgen o Ddatrys Anghydfodau fel y'i nodir yn yr Atodiad i'r Cod[8] fel modd i ddatrys unrhyw anghydfodau sy'n deillio o'r ffordd y caiff y Cod ei gymhwyso.

## 1.7 Aildendro

1.7.1 Bydd y Contractwr (a bydd yn peri i unrhyw Is-gontractwr wneud yr un fath) o fewn cyfnod o ddeuddeg (12) mis yn union cyn i'r Cytundeb hwn ddod i ben neu ar ôl i hysbysiad gael ei gyflwyno neu am fod yr Awdurdod wedi hysbysu'r Contractwr o'i fwriad i aildendro'r Cytundeb hwn:

(a) ar ôl cais ysgrifenedig gan yr Awdurdod yn darparu mewn perthynas ag unrhyw bersonau a benodir neu a gyflogir gan y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr i ddarparu'r Gwasanaethau (y **"Cyflogeion a Aseiniwyd"**) fanylion llawn a chywir ynglŷn â phwy ydynt, nifer, oedran, rhyw, hyd gwasanaeth, teitl swydd, gradd a thelerau ac amodau cyflogaeth pob un o'r Cyflogeion hynny a Aseiniwyd a materion eraill sy'n effeithio arnynt y disgwylir iddynt fod yn Gyflogeion sy'n Dychwelyd (y **"Wybodaeth Aildendro"**) os ydynt yn parhau i gael eu cyflogi gan y Contractwr neu unrhyw Is-gontractwr yn ôl y digwydd tan yn union cyn y Dyddiad Terfynu;

(b) yn darparu'r Wybodaeth am Aildendro yn ddi-oed heb gost i'r Awdurdod;

---

[8] Fel Atodiad A.

(c) yn hysbysu'r Awdurdod ar unwaith yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau perthnasol i'r Wybodaeth am Aildendro yn ddi-oed wrth i'r cyfryw newidiadau godi;

(ch) yn cael ei atal rhag cynyddu neu leihau nifer y Cyflogeion a Aseiniwyd yn sylweddol ac eithrio fel rhan o fusnes arferol a chyda chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod ymlaen llaw (ni fydd y cyfryw ganiatâd yn cael ei atal na'i ohirio'n afresymol);

(d) yn cael ei atal rhag cynyddu cydnabyddiaeth neu wneud newid arall yn nhelerau ac amodau'r Cyflogeion a Aseiniwyd ac eithrio fel rhan o fusnes arferol a chyda chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod ymlaen llaw (ni fydd y cyfryw ganiatâd yn cael ei atal na'i oedi'n afresymol); a

(dd) yn cael ei atal rhag trosglwyddo unrhyw un o'r Cyflogeion a Aseiniwyd i ran arall o'i fusnes na symud cyflogeion eraill o ran arall o'i fusnes neu eu busnes nad ydynt wedi cael eu cyflogi na'u penodi o'r blaen i ddarparu'r Gwasanaethau er mwyn darparu'r Gwasanaethau oni chaiff ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod ymlaen llaw (ni fydd y cyfryw ganiatâd yn cael ei atal na'i oedi'n afresymol);

1.7.2 Bydd y Contractwr yn indemnio'r Awdurdod ac yn parhau i'w indemnio'n llawn ac ar gais yr Awdurdod yn indemnio unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol rhag pob Colled Uniongyrchol sy'n deillio o unrhyw hawliad gan unrhyw barti o ganlyniad i fethiant y Contractwr neu'r Is-gontractwr i ddarparu neu'n darparu'n ddi-oed unrhyw Wybodaeth am Aildendro a/neu Wybodaeth am Atebolrwydd Cyflogeion neu i ddarparu Gwybodaeth lawn am Aildendro a/neu Wybodaeth lawn am Atebolrwydd Cyflogeion neu o ganlyniad i unrhyw anghywirdeb perthnasol yn y Wybodaeth am Aildendro neu unrhyw wybodaeth berthnasol a hepgorir yn y Wybodaeth am Aildendro a/neu'r Wybodaeth am Atebolrwydd Cyflogeion i'r Awdurdod a/neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol lle mae'r Awdurdod yn gofyn am y cyfryw wybodaeth ar yr amod na fydd yr indemniad hwn yn gymwys i'r graddau i'r cyfryw wybodaeth gael ei darparu'n wreiddiol gan yr Awdurdod i'r Contractwr a'i bod yn anghywir neu'n anghyflawn mewn ffordd berthnasol pan y'i darparwyd yn wreiddiol.

## 1.8 Terfynu Cytundeb

Pan ddaw'r Cytundeb hwn i ben neu pan fo'n cael ei derfynu'n gynharach, mae'r Awdurdod a'r Contractwr yn cytuno mai eu bwriad yw y bydd TUPE yn gymwys mewn perthynas â darparu unrhyw wasanaeth wedi hynny sy'n cyfateb i Wasanaeth ond y byddant yn penderfynu ar y sefyllfa yn unol â'r gyfraith ar ddyddiad dod i ben neu derfynu yn ôl y digwydd ac ni fydd y cymal hwn yn effeithio ar y cyfryw benderfyniad.

1.8.2 At ddibenion y cymal 1.8 hwn ystyr Cyflogeion sy'n Dychwelyd fydd y cyflogeion hynny a benodwyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu'r Gwasanaethau yn ôl y digwydd yn union cyn i'r Cytundeb hwn ddod i ben neu cyn i'r Cytundeb hwn gael ei derfynu y mae eu cyflogaeth yn trosglwyddo i'r Awdurdod neu i Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol yn unol â TUPE. Ar ôl i'r Cytundeb hwn ddod i ben neu ar ôl iddo gael ei derfynu'n gynharach am ba reswm bynnag y bo (gelwir y cyfryw ddyddiad yn Ddyddiad Dychwelyd), bydd darpariaethau'r cymal 1.8 hwn yn gymwys:

(a) bydd y Contractwr yn bodloni holl gyflogau a buddiannau eraill y Cyflogeion sy'n Dychwelyd a chyflogeion eraill neu gyn-gyflogeion y Contractwr neu'r Is-gontractwr (a benodwyd i ddarparu'r Gwasanaethau) a'r holl ddidyniadau

treth TWE a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n gysylltiedig â hwy mewn perthynas â chyflogaeth y Cyflogeion sy'n Dychwelyd a'r cyfryw gyflogeion eraill neu gyn-gyflogeion y Contractwr neu'r Is-gontractwr hyd at y Dyddiad Dychwelyd a bydd yn peri i hynny ddigwydd;

(b) bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod holl gyflogau a buddiannau eraill y Cyflogeion sy'n Dychwelyd (neu sydd wedi cael eu penodi i ddarparu'r Gwasanaethau) a'r holl ddidyniadau treth TWE a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n gysylltiedig â hwy mewn perthynas â chyflogaeth y Cyflogeion sy'n Dychwelyd ar ac ar ôl y Dyddiad Dychwelyd yn cael eu bodloni neu bydd yn peri i hynny ddigwydd;

(c) heb effeithio ar gymal 1.8.2(a), bydd y Contractwr:

(i) yn parhau'n gyfrifol (ac yn peri bod Is-Gontractwyr yn parhau'n gyfrifol) (fel y bo'n berthnasol) am holl gyflogeion y Contractwr neu'r Is-gontractwr (heblaw am y Cyflogeion sy'n Dychwelyd) ar neu ar ôl yr adeg y daw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu a bydd yn indemnio'r Awdurdod ac unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol rhag pob Colled Uniongyrchol a brofir gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol sy'n deillio o ba hawliad bynnag y bo p'un a yw'n deillio cyn ar neu ar ôl y Dyddiad Dychwelyd gan neu ar ran unrhyw un o gyflogeion y Contractwr neu'r Is-gontractwr nad yw'n gyfystyr â'r Cyflogeion sy'n Dychwelyd; a

(ii) o ran y cyflogeion hynny sy'n gyfystyr â Chyflogeion sy'n Dychwelyd, bydd y Contractwr yn indemnio'r Awdurdod ac unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol rhag pob Colled Uniongyrchol a brofir gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol sy'n deillio o unrhyw hawliad gan neu ar ran unrhyw Gyflogai sy'n Dychwelyd mewn perthynas â'r cyfnod yn dilyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth Perthnasol ond ar neu cyn y Dyddiad Dychwelyd (p'un a yw unrhyw gyfryw hawliad, y'i priodolir i'r cyfnod hyd at ac ar y Dyddiad Dychwelyd, yn codi cyn, ar neu ar ôl y Dyddiad Dychwelyd) lle mae'r cyfryw hawliad yn deillio o unrhyw weithred, diffyg neu anwaith gan y Contractwr a/neu unrhyw Is-Gontractwr gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i unrhyw fethiant gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr i fodloni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 13 o TUPE a/neu Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb fel pe bai'r cyfryw ddeddfwriaeth yn gymwys, hyd yn oed os nad yw mewn gwirionedd yn gymwys heblaw am i'r graddau y mae unrhyw gyfryw fethiant i gydymffurfio yn digwydd o ganlyniad i weithred neu anwaith gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol.

1.8.3 Bydd hawl gan yr Awdurdod i aseinio budd yr indemniadau a nodir yng nghymal 1.8.2 i unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol.

1.8.4 Bydd yr Awdurdod yn indemnio'r Contractwr (er ei hun ac er budd pob Is-Gontractwr perthnasol) o ran y cyflogeion hynny sy'n gyfystyr â Chyflogeion sy'n Dychwelyd rhag pob Colled Uniongyrchol a brofir gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol mewn perthynas â neu o ganlyniad i unrhyw fethiant gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol i fodloni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 13 o TUPE a/neu Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb fel petai'r cyfryw ddeddfwriaeth yn gymwys, hyd yn oed os nad yw mewn gwirionedd yn gymwys heblaw am i'r graddau y mae unrhyw gyfryw fethiant yn digwydd o ganlyniad i unrhyw weithred neu anwaith gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol.

## 1.9 Cynnig Cyflogaeth ar adeg Dod i Ben neu Derfynu

1.9.1 Os nad yw TUPE yn gymwys pan ddaw'r Cytundeb hwn i ben neu os caiff ei derfynu'n gynnar, bydd yr Awdurdod yn peri i bob Darparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol (gan gynnwys yr Awdurdod) gynnig cyflogaeth i'r sawl a gyflogwyd gan y Contractwr neu Is-Gontractwr i ddarparu Gwasanaethau yn union cyn y Dyddiad Dychwelyd.

1.9.2 Os cynigir cyflogaeth yn unol â chymal 1.9.1, bydd ar yr un telerau ac amodau (heblaw am yr hawl i fod yn aelod o gynllun pensiwn galwedigaethol, yr ymdrinnir ag ef yn unol â chymal 2 (Pensiynau)) a oedd yn gymwys yn union cyn i'r Cytundeb hwn ddod i ben neu gael ei derfynu'n gynnar, gan gynnwys parhad cyflogaeth llawn, ond bydd modd i'r Awdurdod neu Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol, yn ôl ei ddisgresiwn llawn, beidio â chynnig y cyfryw delerau ac amodau os bu newid i delerau ac amodau'r sawl sydd ynghlwm wrth dorri cymal 1.7.

1.9.3 Lle y caiff unrhyw gynnig fel y cyfeirir ato yng nghymal 1.9.1 ei dderbyn, bydd y Contractwr yn imdemnio'r Awdurdod a/neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol, ac yn sicrhau ei fod yn parhau i gael ei imdemnio'n llawn, ar yr un telerau ac amodau â'r rhai a nodir yng nghymal 1.4 o'r Cytundeb hwn fel pe bai Trosglwyddiad Perthnasol wedi bod mewn perthynas â phob cyflogai sydd wedi derbyn unrhyw gyfryw gynnig ac at ddibenion y cymal 1 hwn caiff pob cyflogai o'r fath ei drin fel pe bai'n Gyflogai sy'n Dychwelyd.

1.9.4 Lle na chaiff unrhyw gynnig fel y cyfeirir ato yng nghymal 1.9.1 ei dderbyn ac nad yw TUPE yn gymwys, bydd y cyflogai perthnasol yn parhau i fod yn gyflogai'r Contractwr neu'r Is-Gontractwr fel y bo'n briodol.

## 1.10 Is-Gontractwyr

Os bydd y Contractwr yn ymrwymo i unrhyw Is-Gontract mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn, bydd yn gosod rhwymedigaethau ar ei Is-Gontractwyr ar yr un telerau â'r rhai a osodwyd arno cyn y cymal 1 hwn a chymal 2 (Pensiynau) a bydd yn peri i'r Is-Gontractwr gydymffurfio â'r cyfryw delerau. Bydd y Contractwr yn indemnio'r Awdurdod, ac yn sicrhau ei fod y parhau i'w indemnio'n llawn rhag pob Colled Uniongyrchol a brofir gan yr Awdurdod neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol o ganlyniad i unrhyw fethiant gan y Contractwr i gydymffurfio â'r cymal hwn a/neu fethiant yr Is-Gontractwr i fodloni'r cyfryw delerau neu unrhyw fethiant mewn cysylltiad â hynny.

## PENSIYNAU

### Contractwr i sicrhau Darpariaeth Bensiwn Briodol

Bydd y Contractwr yn sicrhau y caiff pob Cyflogai Cymwys gynnig Darpariaeth Bensiwn Briodol o'r Dyddiad Gweithredol hyd at ac yn cynnwys y dyddiad y daw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu neu bydd yn peri i unrhyw Is-Gontractwr perthnasol wneud hynny.

### Contractwr yn Dod yn Gorff Derbyn o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Lle bydd y Contractwr neu Is-Gontractwr yn cyflogi unrhyw Gyflogeion sy'n Gymwys ar gyfer Cynllun Pensiwn Lywodraeth Leol o Ddyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth bydd darpariaethau'r cymal 2.2 hwn yn gymwys, oni fydd yr Awdurdod yn derbyn bod amgylchiadau eithriadol lle ceir rhesymau arbennig sy'n golygu na fyddai'n briodol i

ddarpariaethau'r cymal 2.2. hwn fod yn gymwys, ac os felly bydd darpariaethau cymal 2.5 yn gymwys yn eu lle.

2.2.1 Bydd y Contractwr yn cynnig aelodaeth o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r cyfryw Gyflogeion sy'n Gymwys ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a bydd yn peri iddo a/neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol ddod yn Gorff Derbyn. Cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth, bydd y Contractwr yn gweithredu ac yn peri i bob Is-Gontractwr perthnasol weithredu Cytundeb Derbyn, a ddaw i rym o ac yn cynnwys y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth.

2.2.2 Cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth bydd yr Awdurdod yn gweithredu pob un o'r Cytundebau Derbyn y cyfeiriwyd atynt yng nghymal 2.2.1 [ac yn gwneud ymdrech resymol i sicrhau bod yr Awdurdod Gweinyddu yn gweithredu pob cyfryw Gytundeb Derbyn Partner cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth[9]].

2.2.3 Heb effeithio ar gyffredinolrwydd y cymal 2.2 hwn, mae'r Contractwr drwy hyn yn indemnio'r Awdurdod a/neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol ac, ym mhob achos, eu his-gontractwyr ar alw rhag ac yn erbyn pob Colled Uniongyrchol a brofir ganddo neu ganddynt sy'n deillio o unrhyw achos o dorri telerau unhyw Gytundeb Derbyn gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr i'r graddau bod y cyfryw rwymedigaeth yn codi cyn neu o ganlyniad i ddod â'r Cytundeb hwn i ben neu ei derfynu (sut bynnag y bydd hynny'n digwydd).

2.2.4 Heb effeithio ar gyffredinolrwydd gofynion y cymal 2.2 hwn, bydd y Contractwr yn peri iddo yntau a phob Is-Gontractwr perthnasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gael unrhyw indemniad neu fond sydd ei angen yn unol â'r Cytundebau Derbyn.

2.2.5 Bydd hawl gan yr Awdurdod i wrthbwyso yn erbyn unrhyw daliadau sy'n ddyledus i'r Contractwr o dan y Cytundeb hwn swm sy'n cyfateb i unrhyw gyfraniadau dyledus gan y cyflogwr a'r cyflogai a thaliadau eraill (ac unrhyw log sy'n daladwy) sy'n ddyledus gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol (fel y bo'n gymwys) o dan y Cytundeb Derbyn.

**2.3 Contractwr yn Cymryd Rhan mewn Cynlluniau Etifeddol eraill**

Lle bydd y Contractwr neu Is-Gontractwr yn cyflogi unrhyw Gyflogeion aad ydynt yn Gymwys ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o Ddyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth bydd darpariaethau'r cymal 2.3 hwn yn gymwys, oni fydd yr Awdurdod yn derbyn bod amgylchiadau eithriadol lle ceir rhesymau arbennig sy'n golygu na fyddai'n briodol i ddarpariaethau'r cymal 2.3. hwn fod yn gymwys, ac os felly bydd darpariaethau cymal 2.5 yn gymwys yn eu lle.

2.3.1 Bydd y Contractwr yn cynnig aelodaeth o'r Cynllun Etifeddol cymwys i'r cyfryw Gyflogeion nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a bydd yn peri iddo a/neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol ymrwymo i Gytundeb Cyfranogi priodol o ran y cyfryw aelodaeth. Cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth, bydd y Contractwr yn gweithredu ac yn peri i bob Is-Gontractwr perthnasol weithredu unrhyw Gytundeb Cyfranogi priodol, a ddaw i rym o ac yn cynnwys y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth.

2.3.2 Cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth bydd yr Awdurdod, lle y bo'n briodol, yn gweithredu pob un o'r Cytundebau Cyfranogi y cyfeiriwyd atynt yng nghymal 2.3.1 [a lle bo angen yn gwneud ymdrech resymol i sicrhau bod unrhyw Awdurdod Cyfranogi

---

[9] Ni fydd angen y geiriad yn y bracedi sgwâr os mai'r Awdurdod Gweinyddu yw'r Awdurdod hefyd.

yn gweithredu pob cyfryw Gytundeb Cyfranogi cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth[10]].

2.3.3 Heb effeithio ar gyffredinolrwydd y cymal 2.3 hwn, mae'r Contractwr drwy hyn yn indemnio'r Awdurdod a/neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol ac, ym mhob achos, eu his-gontractwyr ar alw rhag ac yn erbyn pob Colled Uniongyrchol a brofir ganddo neu ganddynt sy'n deillio o unrhyw achos o dorri telerau unhyw Gytundeb Cyfranogi gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr i'r graddau bod y cyfryw rwymedigaeth yn codi cyn neu o ganlyniad i ddod â'r Cytundeb hwn i ben neu ei derfynu (sut bynnag y bydd hynny'n digwydd).

2.3.4 Heb effeithio ar gyffredinolrwydd gofynion y cymal 2.3 hwn, bydd y Contractwr yn peri iddo yntau a phob Is-Gontractwr perthnasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gael unrhyw indemniad neu fond sydd ei angen yn unol ag unrhyw Gytundeb Cyfranogi.

2.3.5 Bydd hawl gan yr Awdurdod i wrthbwyso yn erbyn unrhyw daliadau sy'n ddyledus i'r Contractwr o dan y Cytundeb hwn swm sy'n cyfateb i unrhyw gyfraniadau dyledus gan y cyflogwr a'r cyflogai a thaliadau eraill (ac unrhyw log sy'n daladwy) sy'n ddyledus gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol (fel sy'n gymwys) o dan unrhyw Gytundeb Cyfranogi.

## 2.4 Contractwr yn Peidio â Bod yn Gorff Derbyn Mwyach

Os bydd y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr yn cyflogi unrhyw Gyflogeion Cymwys o Ddyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth a:

2.4.1 bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli lle ceir rhesymau arbennig dros beidio â chynnig aelodaeth o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gyflogeion sy'n Gymwys ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a/neu aelodaeth o'r Cynllun Etifeddol cymwys i Gyflogeion nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; neu

2.4.3 os am unrhyw reswm ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth y bydd y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol yn peidio â bod yn Gorff Derbyn mwyach neu'n peidio â gallu cymryd rhan mewn unrhyw Gynllun Etifeddol cymwys mwyach heblaw am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol heblaw am ar y dyddiad y daw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu neu am nad yw'n cyflogi unrhyw Gyflogeion Cymwys mwyach;

yna ni fydd darpariaethau cymalau 2.2 a/neu 2.3 yn gymwys (heb effeithio ar unrhyw rai o hawliau'r Awdurdod o dan y cymalau hynny) a bydd darpariaethau cymal 2.5 (Cynllun Contractwr) yn gymwys.

## 2.5 Cynllun Contractwr

Lle bydd y cymal 2.5 hwn yn gymwys yn unol â chymal 2.4, bydd y canlynol yn gymwys:

2.5.1 bydd y Contractwr, heb fod yn hwyrach na'r Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Terfynu (p'un bynnag sy'n gymwys), yn cyflwyno i'r Awdurdod yn ysgrifenedig y cynllun neu'r cynlluniau pensiwn galwedigaethol y mae'n cynnig iddo neu iddynt fod yn Gynllun Contractwr at ddibenion y cymal 2.5 hwn neu bydd yn peri i unrhyw Is-Gontractwr perthnasol wneud hynny. Rhaid i'r cyfryw gynllun neu gynlluniau pensiwn:

[10] Ni fydd angen y geiriad yn y bracedi sgwâr os mai'r Awdurdod Gweinyddu yw'r Awdurdod hefyd.

2.5.1.1 gael ei neu eu sefydlu o fewn tri (3) mis i'r Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Terfynu (p'un bynnag sy'n gymwys);

2.5.1.2 bod yn weddol dderbyniol i'r Awdurdod (na chaiff y cyfryw dderbyniad ei gadw'n ôl neu ei oedi'n afresymol);

2.5.1.3 bod yn gynllun pensiwn cofrestredig at ddibenion Rhan 4 o Ddeddf Cyllid 2004; a

2.5.1.4 bod wedi'i ardystio neu wedi'u hardystio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth neu actiwari a enwebwyd gan yr Awdurdod yn unol â chanllawiau perthnasol a luniwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth sy'n nodi bod y buddiannau yn cyfateb i, yn weddol debyg i neu'n well na'r rhai a gynigir gan y Cynllun Etifeddol cymwys;

2.5.2 mae'r Contractwr yn addo i'r Awdurdod (er budd yr Awdurdod ei hun ac i'r Awdurdod fel asiant ac ymddiriedolwr er budd y Cyflogeion Cymwys) y bydd yn sicrhau ac yn peri peri i unrhyw Is-Gontractwr perthnasol sicrhau:

2.5.2.1 y bydd y Cyflogeion Cymwys dri (3) mis cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Terfynol (p'un bynnag sy'n gymwys) yn cael cynnig aelodaeth o'r Cynllun Contractwr a fydd yn weithredol o ac yn cynnwys y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Terfynu (p'un bynnag sy'n gymwys);

2.5.2.2 bydd y Cynllun Contractwr yn darparu buddiannau mewn perthynas â chyfnodau o wasanaeth y Cyflogeion Cymwys ar ac ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Terfynu (p'un bynnag sy'n gymwys) y bydd Adran Actiwari'r Llywodraeth neu actiwari a enwebwyd gan yr Awdurdod yn unol â chanllawiau perthnasol a luniwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ardystio eu bod yn cyfateb i, yn weddol debyg i neu'n well na'r buddiannau y câi'r Cyflogeion Cymwys eu mwynhau o dan y Cynllun Etifeddol cymwys ar y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Dod i Ben (p'un bynnag sy'n gymwys);

2.5.2.3 os terfynir y Cynllun Contractwr, darperir cynllun pensiwn yn ei le ar unwaith ar gyfer Cyflogeion Cymwys sy'n dal i gael eu cyflogi gan y Contractwr neu Is-Gontractwr perthnasol. Rhaid i'r cynllun newydd gydymffurfio â'r cymal 2.5 hwn fel petai'n Gynllun Contractwr;

2.5.2.4 cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Terfynu (p'un bynnag sy'n gymwys) bydd ymddiriedolwyr y Cynllun Contractwr yn addo drwy weithred i'r Awdurdod ac i unrhyw Awdurdod Gweinyddu neu Awdurdod Cyfranogi fel sy'n ofynnol gan y darpariaethau sy'n llywodraethu unrhyw Gynllun Etifeddol y byddant yn cydymffurfio â darpariaethau cymalau 2.5, 2.6 ac [Atodlen 23] i'r graddau sy'n gymwys iddynt; a

2.5.2.5 lle nad yw'r Cynllun Contractwr wedi'i sefydlu ar y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Terfynu (p'un bynnag sy'n gymwys), caiff y Cyflogeion Cymwys fuddiannau mewn perthynas â marw yn y swydd nad ydynt yn llai ffafriol na'r buddiannau marw yn y swydd a ddarparwyd gan y Cynllun Etifeddol yn union cyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth neu'r Dyddiad Terfynu (p'un bynnag sy'n gymwys). Parheir i ddarparu'r cyfryw fuddiannau nes i'r Cynllun Contractwr ddechrau darparu buddiannau marw yn y swydd; a

2.5.3 Bydd actiwari'r Awdurdod yn pennu telerau unrhyw swmpdrosglwyddiadau o Gynllun Etifeddol i'r Cynllun Contractwr yn dilyn y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth ac unrhyw swmpdrosglwyddiadau dilynol pan ddaw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu.

### 2.6 Ymgymeriad y Contractwr

Mae'r Contractwr yn addo i'r Awdurdod (er budd yr Awdurdod ei hun ac i'r Awdurdod fel asiant ac ymddiriedolwr er budd y Cyflogeion Cymwys) y bydd:

2.6.1 yr holl wybodaeth y caiff yr Awdurdod neu unrhyw Awdurdod Gweinyddu neu Awdurdod Cyfranogi neu eu priod gynghorwyr proffesiynol ofyn yn rhesymol amdani gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol er mwyn gweinyddu'r Cynllun Etifeddol neu ynghylch unrhyw faterion eraill a godwyd yng nghymal 2.5 neu'r cymal 2.6 hwn gael ei rhoi iddynt mor gyflym â phosibl;

2.6.2 ni fydd a bydd yn peri na fydd unrhyw Is-Gontractwr perthnasol, heb gydsyniad ysgrifenedig yr Awdurdod neu unrhyw un arall fel y bo'n ofynnol o dan y darpariaethau sy'n llywodraethu unrhyw gydsyniad gan Gynllun Etifeddol (a fydd ond yn cael ei roi os bydd y Contractwr neu'r Is-Gontractwr perthnasol yn talu'r cyfryw gostau rhesymol ag y bo'n ofynnol gan yr Awdurdod neu unrhyw Awdurdod Gweinyddu neu Awdurdod Cyfranogi) yn cydsynio i gymell, annog neu gynorthwyo unrhyw ddigwyddiad a allai beri i'r Cynllun Etifeddol neu'r Awdurdod fynd i gostau o ran unrhyw Gyflogwr Cymwys sy'n fwy na'r gost a fyddai'n daladwy o ran y Cyflogai Cymwys hwnnw petai'r cydsyniad, cymhelliad, anogaeth neu gymorth heb gael ei roi;

2.6.3 tan y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth, ni fydd a bydd yn peri na fydd unrhyw Is-Gontractwr perthnasol yn gwneud unrhyw gyhoeddiadau (boed yn rhai ysgrifenedig ai peidio) i'r Cyflogeion Cymwys ynghylch y materion a nodwyd yng nghymalau 2.2 neu 2.3 heb gydsyniad ysgrifenedig yr Awdurdod ac unrhyw Awdurdod Gweinyddu neu Awdurdod Cyfanogi (nas cedwir yn ôl neu nas oedir yn afresymol);

2.6.4 ni fydd a bydd yn peri na fydd unrhyw Is-Gontractwr perthnasol yn cymryd nac yn peidio â chymryd unrhyw gamau a fyddai'n cael effaith berthnasol ar y buddiannau o dan unrhyw Gynllun Etifeddol neu o dan Gynllun Contractwr unrhyw Gyflogeion Cymwys sydd wedi neu a fydd yn cael eu cyflogi yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod neu unrhyw un arall ymlaen llaw a all fod yn ofynnol yn ôl y darpariaethau sy'n llywodraethu unrhyw Gynllun Etifeddol (nas cedwir yn ôl neu nas oedir yn afresymol) ar yr amod y bydd gan y Contractwr a/neu unrhyw Is-Gontractwr y cyfryw hawliad heb fod angen cael cydsyniad i weithredu unrhyw rwymedigaethau cytundebol sy'n bodoli eisoes i unrhyw Gyflogeion Cymwys; a

2.6.5 bydd yn cynnig i unrhyw un o'i Gyflogeion Cymwys nad ydynt ynghlwm wrth ddarparu'r Gwasanaethau mwyach ac felly nad ydynt yn gymwys i fod yn aelod o Gynllun Etifeddol ddod yn aelod o Gynllun Contractwr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfryw ddyletswyddau ddod i ben oni fydd y cyfryw Gyflogai Cymwys wedi penderfynu peidio â darparu'r Gwasanaethau o'i wirfodd a bydd yn peri i unrhyw Is-Gontractwr perthnasol wneud hynny.

### 2.7 Buddiannau Dewisol

2.7.1 Lle bydd y Contractwr neu Is-Gontractwr yn cymryd rhan mewn Cynllun Etifeddol, bydd y Contractwr yn cynnig buddiannau (lle y'u caniateir) i'r Cyflogeion Cymwys o dan y Cynllun Etifeddol mewn amgylchiadau lle byddai'r Cyflogeion Cymwys wedi derbyn y cyfryw fuddiannau petaent wedi'u cyflogi gan yr Awdurdod o hyd a/neu'n peri i unrhyw Is-Gontractwr perthnasol wneud hynny; a

2.7.2 Lle na chaniateir cynnig buddiannau yng nghymal 2.71 o dan y Cynllun Etifeddol neu nad yw'r Contractwr a/neu Is-Gontractwr yn cymryd rhan yn y Cynllun Etifeddol cymwys, bydd y Contractwr yn cynnig buddiannau i'r Cyflogeion Cymwys sy'n union debyg i'r buddiannau y byddai'r Cyflogeion Cymwys wedi'u derbyn o dan y Cynllun Etifeddol mewn amgylchiadau lle byddai'r Cyflogeion Cymwys wedi derbyn y cyfryw fuddiannau petaent wedi'u cyflogi gan yr Awdurdod o hyd a/neu'n peri i unrhyw Is-Gontractwr wneud hynny.

2.7.3 O dan gymal 2.7.1 a 2.7.2, lle bo'r cyfryw fuddiannau yn rhai dewisol, cânt eu rhoi ar sail polisi ysgrifenedig yr Awdurdod mewn perthynas â'r cyfryw fuddiannau ar adeg y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth (y bydd yr Awdurdod yn ei ddarparu ar gais). Os na fydd modd talu'r cyfryw fuddiannau, am ba reswm bynnag, bydd y Contractwr yn digolledu'r Cyflogeion Cymwys mewn modd sy'n weddol debyg neu'n gyfatebol o ran arian parod a/neu bydd yn peri i unrhyw Is-Gontractwr perthnasol wneud hynny.

### 2.8 Hawliadau gan Gyflogeion Cymwys neu Undebau Llafur

Mae'r Contractwr drwy hyn yn indemnio'r Awdurdod a/neu unrhyw Ddarparwr Gwasanaeth yn y Dyfodol ac, ym mhob achos, ei is-gontractwyr rhag ac yn erbyn pob Colled Uniongyrchol a brofir ganddo neu ganddynt sy'n deillio o hawliadau gan Gyflogeion Cymwys y Contractwr a/neu unrhyw Is-Gontractwr neu unrhyw undeb llafur, cynrychiolwyr cyflogeion etholedig neu gymdeithasau staff mewn perthynas â phob neu unrhyw gyfryw Gyflogeion Cymwys y mae eu colledion:

2.8.1 yn ymwneud â hawliau pensiwn o ran cyfnodau cyflogaeth ar ac ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth hyd nes y dyddiad y daw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu; neu

2.8.2 yn deillio o fethiant y Contractwr a/neu unrhyw Is-Gontractwr perthnasol i gydymffurfio â darpariaethau'r cymal 2 hwn cyn y dyddiad y daw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu.

### 2.9 Atebolrwydd Costau

Caiff costau'r Awdurdod yr eir iddynt o angenrhaid ac yn rhesymol mewn cysylltiad â'r Cytundeb Derbyn Partner a/neu gael yr ardystiad angenrheidiol o gymharedd yn unol â chymal 2.5 eu talu gan y Contractwr.

### 2.10 Trosglwyddo i Gyflogwr arall

Oni fydd y Cytundeb hwn yn dod i ben neu y caiff ei derfynu, os bydd cyflogaeth unrhyw Gyflogai Cymwys yn cael ei throsglwyddo i gyflogwr arall (drwy drosglwyddiad o dan TUPE) bydd y Contractwr yn gwneud y canlynol ac yn peri i unrhyw Is-Gontractwr perthnasol ei wneud hefyd:

2.10.1 ymgynghori â'r Cyflogeion Cymwys hynny a'u hysbysu o'r darpariaethau pensiwn sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad hwnnw; a

2.10.2 peri i'r cyflogwr y trosglwyddir y Cyflogeion Cymwys iddo (y Cyflogwr Newydd) gydymffurfio â darpariaethau'r cymal 2 hwn ar yr amod y daw cyfeiriadau at yr "Is-Gontractwr" yn gyfeiriadau at y Cyflogwr Newydd, y daw cyfeiriadau at "Dyddiad Trosglwyddo Gwasanaeth" yn gyfeiriadau at y dyddiad trosglwyddo i'r Cyflogwr Newydd ac y daw cyfeiriadau at "Gyflogeion Cymwys" yn gyfeiriadau at y Cyflogeion Cymwys a drosglwyddwyd i'r Cyflogwr Newydd.

## 2.11 Materion Pensiwn ar adeg Dod i Ben neu Derfynu

Bydd y Contractwr yn gwneud y canlynol ac yn peri i unrhyw Is-Gontractwr perthnasol wneud y canlynol:

2.11.1 cadw'r cyfryw ddogfennau a gwybodaeth fel y bydd yn rhesymol ofynnol er mwyn rheoli agweddau ar bensiynau unrhyw achos o flaendrosglwyddo unrhyw unigolyn a benodir neu a gyflogir gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr i ddarparu'r Gwasanaethau pan ddaw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu (gan gynnwys heb gyfyngiad nodi'r Cyflogeion Cymwys);

2.11.2 rhoi i'r Awdurdod yn brydlon y cyfryw ddogfennau a gwybodaeth a nodwyd yng nghymal 2.11.1 y gall yr Awdurdod ofyn amdanynt yn rhesymol cyn y dyddiad y daw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu; a

2.11.3 cydweithredu'n llawn (a pheri i ymddiriedolwyr y Cynllun Contractwr gydweithredu'n llawn) â cheisiadau rhesymol yr Awdurdod mewn perthynas ag unrhyw dasgau gweinyddol sydd eu hangen i ddelio ag agweddau ar bensiynau unrhyw achos o flaendrosglwyddo unrhyw unigolyn a ddefnyddir neu a gyflogir gan y Contractwr neu unrhyw Is-Gontractwr i ddarparu'r Gwasanaethau pan ddaw'r Cytundeb hwn i ben neu y caiff ei derfynu.